# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 5

CYFFREDINOL

*Rhoi hysbysiad etc.*

### 88 Rhoi hysbysiad etc. o dan y Rhan hon

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol (ar ba delerau bynnag) i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol, neu'n awdurdodi (ar ba delerau bynnag) corff llywodraethu neu awdurdod lleol i—

(a) hysbysu person am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson (gan gynnwys hysbysiad neu gopi o ddogfen).

(2) Caniateir i'r hysbysiad gael ei roi neu i'r ddogfen gael ei rhoi i'r person o dan sylw—

(a) drwy ddanfon yr hysbysiad neu'r ddogfen at y person,

(b) drwy anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen drwy'r post i gyfeiriad cywir y person,

(c) drwy adael yr hysbysiad neu'r ddogfen yng nghyfeiriad cywir y person, neu

(d) os yw'r amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni, drwy anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen yn electronig.

(3) Ni chaiff corff llywodraethu nac awdurdod lleol anfon hysbysiad neu ddogfen at berson yn electronig ond os yw'r gofynion a ganlyn wedi eu bodloni—

(a) rhaid i'r person y mae'r hysbysiad i gael ei roi iddo neu y mae'r ddogfen i gael ei rhoi iddo—

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2023.*
*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) bod wedi nodi wrth y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol barodrwydd i gael yr hysbysiad neu'r ddogfen yn electronig, a

(ii) bod wedi darparu i'r corff llywodraethu neu i'r awdurdod lleol gyfeiriad sy'n addas at y diben hwnnw, a

(b) mae'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol yn anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen i'r cyfeiriad hwnnw.

(4) At ddibenion yr adran hon ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) (cyfeiriadau at gyflwyno drwy'r post) fel y mae'n gymwys i'r adran hon, cyfeiriad cywir person yw cyfeiriad hysbys diwethaf y person.

(5) Mae hysbysiad neu ddogfen a roddir i berson drwy ei adael neu ei gadael yng nghyfeiriad cywir y person i gael ei drin neu ei thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi ar yr adeg y gadawyd yr hysbysiad neu'r ddogfen yn y cyfeiriad hwnnw.

[F1(6) Mae hysbysiad neu ddogfen a roddir i berson drwy ei anfon neu ei hanfon yn electronig yn unol â'r adran hon i gael ei drin neu ei thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod yr anfonwyd y cyfathrebiad electronig.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 88(6) wedi ei fewnosod (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **4**

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 88 cymhwyswyd (gydag addasiadau) (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 88 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 88 mewn grym ar 1.9.2021 gan O.S. 2021/373, **ergl. 8(h)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.